Diwydiant hynafol

Mae gogledd Ceredigion yn llawn hanes cyfareddol a golygfeydd trawiadol i'w mwynhau.

Gadawodd traddodiad mwyngloddio'r ardal gasgliad cyfoethog o hen safleoedd mwyngloddio, sydd wedi'u cysylltu gan rwydwaith o hen lwybrau i'r pentrefi a'r tyddynnod lle bu'r mwynwyr a'u teuluoedd unwaith yn byw.

Ers dros 3500 o flynyddoedd, o'r Oes Efydd tan yn gynnar yn yr 20fed ganrif, gweithiwyd mwynau copr, arian a phlwm yr ardal. Yn y cyfnod cynhanesyddol, defnyddiwyd y mwynau hyn i wneud offer ac arfau copr ac efydd. Bron i 2000 o flynyddoedd yn ôl, daeth y Rhufeiniaid yma i chwilio am fwynau. Cafodd olion caer Rufeinig a gwaith toddi plwm eu darganfod yn ymyl Tal-y-bont. Mewn cyfnodau diweddarach, daeth cyfoeth mwynau Ceredigion yn enwog iawn. Yn ystod teyrnasiad Siarl 1, sefydlwyd Bathdy Brenhinol yng Nghastell Aberystwyth i fathu arian o fwynau lleol.

Yn ystod y 19eg ganrif cyrhaeddodd y diwydiant mwyngloddio ei anterth yng ngogledd Ceredigion. Roedd yn un o brif ffynonellau cyflogaeth y sir a mabwysiadodd pentrefi'r ardal eu cymeriad diwydiannol nodweddiadol. Mae olion mwyngloddiau'r cyfnod hwn i'w gweld o hyd, tystiolaeth bendant o dreftadaeth mwyngloddio cyfoethog y sir.

An ancient industry

North Ceredigion is full of fascinating history and scenery to explore.

The metal mining tradition of the region has left a rich array of old mine sites, linked by a network of old trackways to the villages and cottages where the miners and their families lived.

For over 3500 years, from the Bronze Age until the early 20th century, the copper, silver and lead ores of the area were mined. In prehistoric times, the metal ores were used to make copper or bronze tools and weapons. Nearly 2000 years ago, the Romans came to the area in search of metal ores. A Roman fort and lead smelting works have been found near Tal-y-bont. In later times, Ceredigion's mineral wealth was also well known. During the reign of Charles I, a Royal Mint was set up at Aberystwyth Castle to mint coins from local silver.

It was during the 19th century that metal mining had its heyday in North Ceredigion. It became a major source of employment and the villages of the district took on a distinctly industrial character. The remains of the later mines are still to be seen, clues to the rich mining heritage of the county.

Dilyn Llwybrau'r Mwynwyr

In the Footsteps of Miners

Gogledd Ceredigion
North Ceredigion